



Sicrhau bod cyfathrebiadau'n gweithio i bawb

Making communications work for everyone

Adolygiad o'r Farchnad Mynediad Lleol Cyfanwerthol (WLA)

Ymgynghori ynghylch cynigion prisiau atebion ar
gyfer mynediad i Bolion a Phibellau

Ymgynghoriad

Dyddiad cyhoeddi:

1 Awst 2017

Dyddiad Olaf ar gyfer derbyn

12 Medi 2017

Ymatebion:

Gair am y ddogfen hon

Mae'r ymgynghoriad hwn yn dilyn ein Hadolygiad Strategol o Gyfathrebiadau Digidol; a'r 'Ymgynghoriad ar atebion ar gyfer mynediad i Bolion a Phibellau' ("Ebrill 2017 Ymgynghoriad DPA") a gyhoeddwyd gennym ym mis Ebrill 2017 fel rhan o'n hadolygiad i'r farchnad mynediad lleol cyfanwerthol (WLA).

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â mynediad i bolion a phibellau Openreach. Yn ein Hymgyngghoriad DPA ym mis Ebrill 2017, gwnaethom nodi ein cynigion a oedd yn ei gwneud yn ofynnol i Openreach roi mynediad i seilwaith, gan gynnwys ar gyfer beth y gellid defnyddio hyn a sut y dylai hyn weithio o ran proses. Yn ogystal â hynny, aethom ati i nodi ein cynigion cyffredinol ynghylch sut y gellid pennu ffioedd rhentu a sut byddai'r costau yn cael eu hadennill, gan ddweud y byddem yn rhoi mwy o fanylion yn yr haf. Mae'r ymgynghoriad hwn yn datblygu mwy ar y cynigion hyn o ran prisiau.

Erbyn hyn, rydym wedi nodi ein cynigion prisiau manwl ar osod ffioedd rhentu, y terfyn ariannol ar gyfer adennill costau addasu rhwydwaith, a newidiadau i ofynion adroddiadau ariannol rheoleiddio. Mae'r cynigion hyn yn rhan o'n hadolygiad o'r farchnad mynediad lleol cyfanwerthol ac mae'r ymgynghoriad hwn yn ategu ein Hymgyngghoriad DPA ym mis Ebrill 2017

Daw'r ymgynghoriad i ben ar 12 Medi 2017. Anfonwch eich ymatebion drwy ein gwefan: <https://www.ofcom.org.uk/consultations-and-statements/category-2/pricing-proposals-duct-pole-access>

Cynnwys

Adran

1

Crynodeb gweithredol

Tudalen

1

Adran 1

Crynodeb gweithredol

Y cyd-destun strategol a'r adolygiad o'r farchnad

- 1.1 Un o brif elfennau ein Hadolygiad Strategol o Gyfathrebiadau Digidol yw gwneud newid strategol i annog cwmnïau i ddefnyddio rhwydweithiau band eang gwibgyswllt newydd a hynny ar raddfa fawr, gan gynnwys ffibr yn syth i gartrefi a busnesau (a elwir weithiau'n 'ffibr-llawn'). Mae rhwydweithiau ffibr llawn yn cefnogi gwasanaethau uwch, gyda chyflymderau cyflym iawn o 1 Gbit yr eiliad neu fwy. Maent hefyd yn fwy dibynadwy a rhagweladwy, heb gyfyngiadau cyflymder 'hyd at' gwasanaethau band eang copr.
- 1.2 Un o brif elfennau ein strategaeth i hyrwyddo cystadleuaeth ar sail seilwaith yw ei gwneud yn gynt ac yn haws i ddarparwyr gwahanol adeiladu eu rhwydweithiau ffibr eu hunain drwy wella mynediad i bolion a phibellau (DPA): mynediad i rwydwaith o bolion a phibellau tanddaearol sy'n cludo ceblau telegyfathrebiadau.
- 1.3 Rydym yn archwilio mynediad i bolion a phibellau BT fel rhan o'n hadolygiad o'r farchnad mynediad lleol cyfanwerthol (WLA). Ym mis Mawrth, gwnaethom gyhoeddi ein cynigion parthed yr adolygiad o'r farchnad, gan nodi ein dyfarniad dros dro bod gan BT bŵer sylweddol o hyd yn y farchnad Mynediad Lleol Cyfanwerthol yn y DU ar wahân i ardal Hull.

Atebion ar gyfer mynediad i bolion a phibellau

- 1.4 Ym mis Ebrill, gwnaethom nodi ein cynigion ar gyfer atebion i gael mynediad i bolion a phibellau. Roedd hyn yn adlewyrchu ein barn mai'r ffordd orau yn yr hirdymor o ddatrys pryderon yn ymwneud â chystadleuaeth sy'n deillio o bŵer sylweddol BT yn y farchnad yw drwy hyrwyddo cystadleuaeth ar sail seilwaith mewn rhwydweithiau mynediad lleol. Dyma ein prif gynigion: mynediad i seilwaith BT ar delerau teg er mwyn sicrhau tegwch i bawb; atgyweirio seilwaith diffygiol fel ei fod yn 'barod i'w ddefnyddio'; caniatáu sefydlu rhwydweithiau mynediad lleol 'defnydd cymysg' sy'n cynnig gwasanaethau band eang a gwasanaethau heb fod yn fand eang; symleiddio prosesau i sicrhau bod rhwydwaith yn cael ei sefydlu'n effeithlon; a sicrhau bod prisiau yn eu lle i gefnogi buddsoddi cystadleuol.
- 1.5 O ran y prisiau, roeddem o'r farn ar y cychwyn nad oedd yr amod presennol ar gyfer sail y ffioedd yn rhoi digon o sicrwydd i fuddsoddwyr posibl o ran lefel y ffioedd rhentu y byddent yn eu hwynebu. O ran y costau ategol, roeddem o'r farn ar y cychwyn fod y costau ar gyfer gwaith adeiladu a galluogi yn rhwystro darparwyr a oedd yn awyddus i ddefnyddio DPA ar raddfa fawr. I sicrhau tegwch, ein barn dros dro oedd y byddai'n briodol i rai costau sy'n gysylltiedig â'r ateb gael eu cronni a'u hadennill gan bawb sy'n defnyddio'r seilwaith. Felly, dyma ein cynigion:
 - gosod uchafswm ar ffioedd rhentu polion a phibellau gan ddefnyddio'r fethodoleg bresennol;
 - cadw'r amod ar gyfer sail y ffioedd ar gyfer costau ategol, ar wahân i'r costau ar gyfer addasu'r rhwydwaith lle roeddem o'r farn y dylai Openreach adennill costau cysylltiedig yn lle holl ddefnyddwyr ei seilwaith, yn amodol ar derfyn ariannol; a

- ystyried unrhyw newidiadau angenrheidiol i rwymedigaethau adrodd BT.

Terfyn ffioedd rhentu

- 1.6 Ym mis Ebrill, yn dilyn ein dadansoddiad o'r farchnad, gwnaethom nodi risg yr effeithiau andwyol a chanlyniadau i fusnesau a phobl sy'n codi wrth ystumio prisiau, gan gofio y gallai BT bennu neu gadw prisiau ar lefel sy'n rhy uchel. Roeddem o'r farn bod angen sicrwydd gyda lefel y costau a bod modd eu rhagweld er mwyn gallu cefnogi buddsoddwyr yn llawn i greu achos busnes hyfyw ar gyfer sefydlu rhwydwaith gan ddefnyddio pibellau a pholion BT.
- 1.7 Bwriadwn osod terfyn ar ffioedd rhentu, gan ddefnyddio'r fethodoleg bresennol ar gyfer cyfrifo pris. Rydym wedi adolygu'r fethodoleg bresennol ac wedi diweddau'r cyfrifiadau i adlewyrchu'r data costau diweddaraf gan Openreach. Ac ystyried nad yw'r wybodaeth sydd ar gael ar hyn o bryd yn fanwl iawn, a bod ansicrwydd ynghylch y nifer sydd â mynediad i bolion a phibellau, rydym o'r farn bod hyn yn ffordd effeithiol a phragmatig o roi sicrwydd i fuddsoddwyr ar gyfer cyfnod yr adolygiad.
- 1.8 Wrth bennu'r fethodoleg ar gyfer y terfyn ffioedd rhentu arfaethedig, rydym wedi penderfynu dros dro y dylai'r costau sy'n codi wrth greu a rheoli'r ateb gael eu hadennill oddi wrth bawb sy'n defnyddio'r polion a phibellau, er mwyn sicrhau tegwch o ran y costau sy'n wynebu Openreach eu hunain wrth ddefnyddio'r seilwaith. Mae hyn wedi golygu addasu'r cyfrifiad ar gyfer y ffioedd rhentu drwy ddisodli'r costau llawn hyn (fel sydd yn y cyfrifiad presennol) â chyfran briodol o'r costau hyn.
- 1.9 Rydym yn ymgynghori ynghylch y fethodoleg rydym yn bwriadu ei mabwysiadu i gyfrifo'r uchafswm costau, yn hytrach nag ar y lefel benodol o ffioedd a gynigir wedyn. Fodd bynnag, er mwyn dangos effaith y fethodoleg hon, mae'r terfyn a ddaw yn sgil hyn ar gyfer y prif ffioedd rhentu wedi'i nodi yn y tabl isod, ynghyd â ffioedd presennol Openreach. Rydym yn cynnig y byddem yn pennu'r terfyn rhentu drwy ddefnyddio'r fethodoleg a fabwysiadwn yn ein penderfyniad terfynol i ddata mewnbyn diweddaraf.

Tabl 1.1: Terfyn a gynigir ar ffioedd rhentu (y flwyddyn)

	Ffi bresennol	Terfyn a gynigir
Pibell un twll (y metr)	£0.60	£0.29 (-52%)
Pibell mewn-wifren (y metr)	£0.84	£0.45 (-46%)
Gwifren gollwng wedi'i hatodi i bolyn (am bob atodyn)	£8.85	£5.74 (-35%)

Costau ategol a therfyn ariannol ar gyfer addasiadau i rwydwaith

- 1.10 Ym mis Ebrill, roeddem yn sylweddoli, o fewn yr ateb a gynigir gennym yng nghyswllt mynediad, y byddai angen i Openreach wneud addasiadau penodol weithiau i'w rwydwaith seilwaith fel ei fod yn 'barod i'w ddefnyddio'. Roeddem yn cynnig y dylai'r costau cysylltiedig gael eu hadennill oddi wrth bawb sy'n defnyddio'r rhwydwaith, lleihau'r rhwystrau i fuddsoddi mewn rhwydweithiau cystadleuol ar y raddfa briodol a sicrhau tegwch mewn perthynas â'r costau y mae Openreach ei hun yn eu hwynebu am ddefnyddio ei bolion a'i bibellau ei hun. Ond, i sicrhau bod digon o sicrwydd am lefel y costau y byddai angen i Openreach eu hadennill yn y ffordd hon, roeddem yn cynnig y dylid cael terfyn ariannol, gydag unrhyw gostau sy'n codi uwchben y terfyn ariannol yn cael eu hadennill yn uniongyrchol oddi wrth y darparwr telathrebu sy'n gwneud y cais. Ar ben hynny, mae terfyn ariannol yn debygol o annog defnydd mwy

effeithlon o'r capasiti presennol a lleihau'r angen i ofyn am addasiadau diangen sy'n arwain at anghydfod.

- 1.11 Rydym o'r farn y dylai terfyn ariannol fod ar yr un raddfa â maint y rhwydwaith sy'n cael ei sefydlu gan ddefnyddio mynediad i bolion a phibellau. Pan fydd darparwr telathrebu am ddefnyddio polion a phibellau BT, bydd yn gosod archeb gydag Openreach, gan ofyn am gael defnyddio darnau penodol o'r pibellau a seilwaith ffisegol arall mewn ardal ddaearyddol. Er mwyn cadw pethau'n syml a bod yn ymarferol, rydym yn cynnig gosod un terfyn ariannol i'r archeb gyfan, sy'n cyd-fynd â chyfanswm cilometrau'r pibellau a archebir. Dim ond y ffi ategol am addasiadau i'r rhwydwaith y byddai darparwr telathrebu yn ei thalu pe byddai cost yr holl addasiadau angenrheidiol i'r rhwydwaith gyda'i gilydd yn fwy na chyfanswm terfyn ariannol yr archeb.
- 1.12 Fel sail i'r terfyn ariannol a gynigir gennym, rydyn wedi ystyried y prif ffactorau sydd y tu ôl i gyfanswm costau addasu'r rhwydwaith: addasiadau yn ôl pellter (e.e. atgyweirio pibellau sydd wedi blocio); ac addasiadau yn ôl nifer yr eiddo (y rheini sy'n ymwneud â'r cysylltiadau terfynol â'r eiddo, e.e. gwifrau gollwng o'r polion). Rydym wedi modelu sefyllfaoedd lle byddai'r addasiadau i'r rhwydwaith yn dod o fewn cwmplas yr ateb yn braf, ac y dylai'r costau cysylltiedig gael eu hadennill oddi wrth bawb sy'n defnyddio'r seilwaith. Rydym wedi ystyried pa mor aml y byddai angen yr addasiadau hyn, a'r costau sy'n gysylltiedig â'r addasiadau, ac yn cydnabod bod yr amrywiad naturiol mewn costau yn golygu y bydd cost ambell addasiad yn is na'r cyfartaledd, ac y bydd ambell un yn uwch.
- 1.13 Rydym wedi defnyddio ein dadansoddiad yn sail i'n barn reoleiddio am derfyn ariannol priodol sy'n ddigon i dalu costau addasiadau nodweddiadol i'r rhwydwaith y bydd yn rhaid i ddarparwyr telathrebu eu gwneud, fwy na thebyg, er mwyn sefydlu eu rhwydweithiau eu hunain, heb dalu o reidrwydd am achosion addasiadau sy'n gostus dros ben.
- 1.14 Mae'r terfyn ariannol a gynigir ar gyfer addasiadau i'r rhwydwaith wedi'i nodi isod.

Tabl 1.2: Terfyn ariannol a gynigir ar gyfer addasiadau i'r rhwydwaith

Terfyn ariannol a gynigir	
Terfyn ariannol am bob cilometr o bibell	£4,000 i £6,000 am bob km

Adroddiadau ariannol rheoleiddio

- 1.15 A ninnau wedi gosod ein cynigion ar gyfer prisiau mynediad i bolion a phibellau, mae'n rhaid i ni gael y wybodaeth angenrheidiol i sicrhau bod y rheoleiddio yn effeithiol, gan gynnwys monitro cydymffurfiaeth ag amodau SMP. Mae cyhoeddi gwybodaeth briodol hefyd yn sicrhau tryloywder i'r diwydiant am effaith ac effeithiolrwydd y rheoleiddio. Diben ein gofynion o ran adroddiadau ariannol rheoleiddio yw bodloni'r amcanion hyn, ac mae'n golygu bod BT yn gorfod paratoi Datganiadau Ariannol Rheoleiddio blynyddol.
- 1.16 Rydym yn cynnig bod BT yn gorfod cyhoeddi gwybodaeth am lefel gwasanaeth, gan gynnwys gwybodaeth am refeniw, nifer a phris cyfartalog y ffioedd rhentu a'r costau ategol ar gyfer ei gynnyrch mynediad i bolion a phibellau. Ar ben hynny, rydym yn cynnig bod BT yn rhoi gwybodaeth gyfrinachol i ni ynghylch refeniw a nifer sylfaenol

ar gyfer gwasanaethau penodol sy'n rhoi mynediad i bolion a phibellau, er mwyn i ni allu monitro effeithiolrwydd ein rheoliadau prisio.

- 1.17 Ym mis Ebrill, gwnaethom gynnig amod 'dim gwahaniaethu gormodol' ar BT hefyd. Rydym yn cynnig rhagor o ofynion o ran adroddiadau ariannol i sicrhau na ddylai'r ffordd y mae BT yn adennill costau ei addasiadau ei hun i'r rhwydwaith i gefnogi ei wasanaethau sy'n is i lawr yn wahanol i'r ffordd y mae'n adennill costau addasiadau i'r rhwydwaith sy'n ofynnol gan ddarparwyr telathrebu eraill sy'n defnyddio mynediad i bolion a phibellau.

Y camau nesaf

- 1.18 Yn dilyn ymatebion i'r ymgynghoriad hwn, disgwyliwn gyhoeddi ein penderfyniad terfynol mewn Datganiad ddechrau 2018, gyda mesurau newydd yn dod i rym ar 1 Ebrill 2018.